

CAIS AM DRWYDDED BUSNES RHYW

NODIADAU ESBONIADOL I YMGEISWYR

1. Cynghorir ymgeiswyr i ddarllen y ddogfen atodedig, Canllawiau Polisi ar gyfer Trwyddedu Busnesau Rhyw, sy'n amlinellu'r drefn ymgeisio, cyn cwblhau'r Ffurflen Gais atodedig.
2. Ceir manylion ynghylch y Ffioedd am Drwyddedau yn Atodiad C yn y Canllawiau.
3. Gellir cyflwyno ffurflenni cais wedi'u cwblhau, ynghyd â'r canlynol :-
 - Pum set o gynlluniau llawr yn ôl graddfa sy'n dangos pob mynedfa ac allanfa, unrhyw rannau a ddefnyddir ar y cyd ag unrhyw adeilad arall ac sy'n rhoi syniad o leoliad yr adeilad mewn perthynas â'r stryd;
 - Pum set o gynlluniau sy'n dangos bodolaeth a blaen yr adeilad, gan gynnwys yr holl arwyddion;
 - Pum set o gynlluniau (graddfa 1:500) sy'n dangos y busnes rhyw mewn perthynas ag adeiladau eraill o fewn 100 metr;
 - Pum set o gynlluniau (graddfa 150) sy'n dangos cynllun y busnes rhyw;
 - Y ffi gywir (dylai pob siec fod yn daladwy i "Cyngor Sir Caerfyrddin") .
 - Yr holl wiriadau angenrheidiol gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB). (Mae canllawiau ar wahân a ffurflenni'r CRB ar gael i ymgeiswyr ar gais).

i un o Ganolfannau Gwasanaeth Cwsmeriaid y Cyngor yn:-

Neuadd y Dref, Rhydaman
3 Heol Spilman, Caerfyrddin
Tŷ Elwyn, Llanelli

NEU gellir eu postio i'r:

Adain Drwyddedu
Is-adran Diogelu'r Cyhoedd
Cyngor Sir Caerfyrddin
3 Heol Spilman
Caerfyrddin
Sir Gaerfyrddin
SA31 1LE

4. Bydd copi wedi'i gwblhau o'r Hysbysiad atodedig ynghylch Cais yn cael:-
 - i) Ei arddangos ar neu ar bwys yr adeilad mewn man lle mae'n gyfleus i'r cyhoedd ddarllen hysbysiadau, am ddau ddeg un (21) diwrnod, gan ddechrau ar y dyddiad pan gyflwynir y cais i'r Cyngor;
 - ii) Ei gyhoeddi, cyn pen saith (7) diwrnod ar ôl i'r cais gael ei gyflwyno i'r Cyngor, mewn papur newyddion lleol sy'n cael ei ddsbarthu yn Sir Gaerfyrddin.
5. Dylid anfon copi o'r ffurflenni cais, cyn pen saith (7) diwrnod ar ôl cyflwyno'r cais i'r Cyngor, at Swyddog Trwyddedu'r Heddlu, Heddlu Dyfed-Powys, d/o Gorsaf yr Heddlu, Heol y Ffowndri, Rhydaman, SA18 2LS.
6. Dylid darparu manylion ynghylch cyhoeddi ac arddangos yr Hysbysiad drwy gwblhau a dychwelyd y ffurflen a ddarperir, ynghyd â chopi o'r Hysbysiad i'r Wasg, at Bennaeth Diogelu'r Cyhoedd yn y cyfeiriad uchod cyn pen saith (7) diwrnod ar ôl ei gyhoeddi.
7. Fel corff cyhoeddus, mae dyletswydd arnom i ddiogelu'r arian cyhoeddus rydym yn ei weinyddu ac, i'r perwyl hwn, gallwn ddefnyddio gwybodaeth a roddir gan ymgeiswyr i atal a chanfod twyll. Gallwn hefyd rannu'r wybodaeth hon â chyrrff eraill sy'n gyfrifol am archwilio neu weinyddu arian cyhoeddus at y dibenion hyn.
8. Anogir ymgeiswyr i gysylltu â'r Awdurdod i drafod eu cynigion cyn cyflwyno cais. Gellir cysylltu â'r Adain Drwyddedu drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt canlynol:-

Rhif ffôn: 01267 234567

e-bost: diogelurcyhoedd@sirgar.gov.uk

Rhif ffacs: 01267 229141